



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu Cysgu Allan

---

Chwefror 2018



## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithredu dwy flynedd i leihau achosion o gysgu allan yn adlewyrchu pryder Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ynghylch y cynnydd diweddar yn nifer yr unigolion sy'n cysgu allan a'r flaenoriaeth y maent yn ei rhoi i wyrdroi hynny. Rydym yn benderfynol o wneud mwy o gynnydd wrth gyflawni ein hamcan hirdymor i sicrhau nad oes angen i neb gysgu allan.

Datblygwyd y cynllun gweithredu hwn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid sy'n gweithio gydag unigolion sy'n cysgu allan, gan gynnwys Rough Sleepers Cymru a CLILC. Bwriedir iddo fod yn ddogfen weithredol ddeinamig, a chaiff y ddogfen ei hadolygu'n barhaus a'i newid fel y bo angen.

## Cyd-destun

Nododd Cynllun Digartrefedd deng mlynedd 2009-19 ein nod o ddileu'r angen i unrhyw un gysgu allan. Mae cysgu allan yn fater anodd ei fesur ac i ymdrin ag ef. Er gwaethaf cynnydd yn y cyllid a neilltuir er mwyn helpu pobl heb gartref, mae nifer y bobl sy'n cysgu allan ar gynnydd yng Nghymru fel rhan o duedd ehangach ledled y DU gyfan.

Mae'r ffactorau sy'n achosi i bobl gysgu allan yn cynnwys ffactorau personol a strwythurol, sy'n aml yn rhyngweithio gan olygu nad oes gan bobl unrhyw ddewis heblaw cysgu allan. Mae'r problemau difrifol yn y farchnad dai yn golygu nad oes tai fforddiadwy ar gael o bosibl. Mae problemau o ran cyflogaeth a budd-daliadau lles yn creu cyd-destun anodd iawn i bobl ar incwm isel. Caiff y materion hyn yn aml eu gwaethygu gan broblemau personol megis salwch, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol.

Mae gwasanaethau allgymorth a gwasanaethau eraill i unigolion sy'n cysgu allan wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r unedau llety sydd ar gael mewn argyfwng yn anghyson o hyd, ac nid ydynt bob amser yn addas nac yn hygyrch i bawb sydd eu hangen. Mae rhai unigolion sy'n cysgu allan wedi hen arfer â gwneud hynny, ac mae'n bosibl na fyddant yn barod i roi cynnig ar ddewisiadau amgen gwell.

## Beth rydym am ei gyflawni

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o leihau nifer yr unigolion sy'n cysgu allan a dileu'r angen i bobl wneud hynny. Yn ogystal ag ymrwymiad gennym ni, bydd angen ymrwymiad gan awdurdodau lleol ac amrywiaeth eang o sefydliadau a sectorau eraill er mwyn gwneud hynny. Ni chredwn y dylai fod yn rhaid i unrhyw un gysgu allan. Rydym am weld amrywiaeth o wasanaethau allgymorth, galw heibio a llety cydgysylltiedig yn cael eu cyflenwi gan ddarparwyr ym maes tai, gofal iechyd, cyflogaeth a gwasanaethau cymorth. Mae angen iddynt ganolbwyntio ar yr unigolyn, bod ar gael yn eang, yn hawdd cael gafael arnynt ac wedi'u targedu at anghenion unigolion sy'n cysgu allan. Mae angen iddynt ganolbwyntio ar uchelgeisiau, amgylchiadau a photensial pob defnyddiwr gwasanaeth unigol. Mae angen iddynt ddarparu dull

gweithredu cyfannol sy'n diwallu anghenion ymarferol, emosiynol, corfforol a seicolegol, cymdeithasol ac ymddygiadol unigolion sy'n cysgu allan.

Mae angen i wasanaethau gydweithio mewn modd rhagweithiol er mwyn atal achosion o gysgu allan, yn ogystal ag annog unigolion sy'n cysgu allan i ailsefydlu a'u helpu i ailintegreiddio i gymdeithas, bodloni eu dyheadau a dod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned. Rydym am weld systemau gwell yn cael eu datblygu i fonitro a mesur nifer yr unigolion sy'n cysgu allan, canlyniadau gwasanaethau a'n llwyddiant wrth ddileu'r angen i gysgu allan.

### Bwrw ati â'r cynllun gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y caiff y cynllun gweithredu ei roi ar waith. Wrth i ni ddeall y broblem yn well a deall sut y gall arfer gorau ei hatal a'i lleihau, caiff y cynllun ei adolygu ac mae'n bosibl y caiff camau gweithredu eu hychwanegu neu eu diwygio.

Gwasanaethau rheng flaen fydd yn bennaf cyfrifol am y camau gweithredu hyn, gan gynnwys awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i helpu ac ysgogi cynnydd, gan gymryd yr awenau lle y bo angen.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Gweithgor Cysgu Allan a'r Gweithgor Strategaethau Digartrefedd i'w galluogi i fonitro cynnydd. Cyflwynir adroddiadau hefyd i'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Nid yw'r cynllun yn nodi adnoddau penodol yn erbyn pob cam gweithredu. Mae hyn yn rhannol am y gellir rhoi'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu ar waith gan ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y cyllid ychwanegol a gaiff ei ryddhau gan Lywodraeth Cymru yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ac yn rhannol gan y bydd yr adnoddau, mewn sawl achos, yn dod o fwy nag un ffynhonnell.

## **Cynllun Gweithredu ar Gysgu allan 2018-2020**

### Atal

Mae'n hanfodol y gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag gorfod cysgu allan, a all olygu bod pobl yn canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd sy'n hynod niweidiol.

Byddwn yn:

1. Cefnogi ymdrechion i atgyfeirio unigolion newydd sy'n cysgu allan i wasanaethau yn gynnar drwy Streetlink a sianeli gwybodaeth a chyngor cyhoeddus eraill. (Erbyn mis Gorffennaf 2018)
2. Cynnal gwaith ymchwil i ddeall achosion y cynnydd diweddar yn nifer yr unigolion sy'n cysgu allan a nodi cyfleoedd i wella'r gwaith a wneir i atal y broblem, gan gynnwys rôl ac addasrwydd unedau llety mewn argyfwng ac unedau llety dros dro. (Erbyn mis Gorffennaf 2018)

3. Hyrwyddo ymdrechion i atal unigolion rhag cysgu allan drwy drefniadau tai mewn argyfwng a sicrhau bod gweithgareddau atal digartrefedd o dan adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) mor effeithiol â phosibl, a lle na ellir atal achosion o gysgu allan, cefnogi dull gweithredu ar gyfer atal ail noson allan.
4. Hyrwyddo ac ymgysylltu â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod er mwyn helpu i ymdrin â'r ffactorau sy'n cyfrannu at gysgu allan yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant i weithwyr mewn arfer trawma ar sail gwybodaeth a sgiliau cysylltiedig i'w helpu i gefnogi unigolion sy'n cysgu allan gan weithredu mewn ffordd sensitif ac empathetig briodol. (Erbyn mis Rhagfyr 2018)

### Cymorth

Yn aml, mae gan unigolion sy'n cysgu allan anghenion lluosog a chymhleth, a dim ond drwy roi cymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y gellir eu helpu'n effeithiol.

5. Drwy ganllawiau a chyngor, meithrin trefniadau ar gyfer defnyddio adnoddau Cefnogi Pobl er mwyn helpu unigolion sy'n cysgu allan i gael llety a'u helpu i barhau yn y llety hwnnw er mwyn eu helpu i osgoi sefyllfa lle y byddant yn cysgu allan eto. (O fis Ebrill 2018)
6. Hyrwyddo gwasanaethau sy'n helpu i feithrin sgiliau a hyder unigolion sy'n cysgu allan a'u helpu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys gwasanaethau dydd. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad ar arfer effeithiol. (Erbyn mis Rhagfyr 2018)
7. Annog trefniadau i ddatblygu cymorth gan gyfoedion er mwyn helpu unigolion sy'n cysgu allan i droi cefn ar y stryd, gan gynnwys hyfforddiant i gyfoedion sy'n mentora. (O fis Ebrill 2018)
8. Hyrwyddo neges gadarnhaol i'r cyhoedd am y ffordd orau o helpu unigolyn sy'n cysgu allan, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau allan a'r rheini sy'n wirioneddol ddigartref. (O fis Hydref 2018)

### Allgymorth

Mae angen i wasanaethau fod yn rhagweithiol wrth roi help i bobl sy'n cysgu allan, gan ymgysylltu mewn ffordd bendant fel y bo angen gan gynnig atebion cynnar ac adeiladol.

9. Hyrwyddo gwasanaethau allgymorth pendant a dull rheoli achosion er mwyn helpu pob unigolyn sy'n cysgu allan i ddod o hyd i lety, gyda chymorth system TG briodol fel uchod. (O fis Mawrth 2019)

10. Helpu unigolion sy'n cysgu allan i ddychwelyd i ardaloedd lle mae ganddynt deulu neu gysylltiadau cadarn eraill os ydynt yn dymuno hynny, o fewn dull rheoli achosion sy'n cynnwys cymorth i ddod o hyd i lety a phrotocol clir ar gyfer eu trosglwyddo. (Parhaus)

### Llety mewn Argyfwng

Ni ddylai fod angen i unrhyw un gysgu allan, ac mae'n hanfodol sicrhau bod llety addas ar gael mewn argyfwng er mwyn osgoi hyn.

11. Sicrhau y gellir cael gafael ar lety diogel â chymorth mewn argyfwng drwy gydol y flwyddyn, drwy ehangu'r ddarpariaeth a gwella trefniadau symud ymlaen er mwyn rhyddhau gwelyau. Dylid dangos tystiolaeth o hyn mewn adolygiadau a strategaethau digartrefedd statudol. (O fis Ionawr 2019)
12. Adolygu cynlluniau tywydd garw a sicrhau bod pob cynllun yn cynnig diogelwch a chymorth priodol i unigolion sy'n cysgu allan, ac yn eu helpu mewn modd rhagweithiol i gael gafael ar dai a chymorth mwy addas. (Erbyn mis Mawrth 2018 a mis Tachwedd 2018)

### Tai yn Gyntaf

I lawer o bobl, mae Tai yn Gyntaf yn cynnig yr ateb effeithiol i'w sefyllfa, fel y gwelir yn gyson drwy waith ymchwil.

13. Annog y defnydd o egwyddorion Tai yn Gyntaf (ac adolygu profiadau wrth weithredu'r fenter) er mwyn galluogi unigolion sy'n cysgu allan i ddod o hyd i lety sefydlog, gan gynnwys defnyddio cyllidebau unigol er mwyn helpu i ailsefydlu unigolion a chymhellion er mwyn gwella mynediad i'r sector rhentu preifat. (Erbyn mis Hydref 2018)

### Deddfwriaeth a chanllawiau statudol

Rhaid cynllunio'r fframwaith cyfreithiol er mwyn sicrhau y cynigir help i bobl osgoi cysgu allan, gan roi cymorth pan fyddant mewn perygl neu'n gorfod cysgu allan. Nid yw Rhan 2 o Ddeddf Tai 2014 wedi cyflawni hyn eto.

14. Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu anghenion unigolion sy'n cysgu allan yn eu hardal a chynllunio i ddiwallu eu hanghenion fel rhan o'u strategaethau digartrefedd lleol er mwyn cyflawni dyletswyddau o dan adrannau 50-52 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Dylai gwaith cynllunio ddiwallu anghenion merched, cyplau a phobl ag anifeiliaid anwes. (Erbyn mis Rhagfyr 2018)
15. Darparu canllawiau statudol cryfach ar gysgu allan, er mwyn sicrhau y caiff deddfwriaeth digartrefedd ei rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn gwella'r canlyniadau i unigolion sy'n cysgu allan. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau cliriach ar roi cymorth i'r rheini heb unrhyw gysylltiadau lleol,

er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth wedi'i deilwra i ddod o hyd i lety. (Erbyn mis Gorffennaf 2018)

16. Ystyried yr achos dros ddiwygio is-ddeddfwriaeth er mwyn addasu grwpiau ag anghenion blaenoriaethol, gan gynnwys unigolion sy'n cysgu allan. (Erbyn mis Ionawr 2020)

### Mesur a Monitro

Mae mesur achosion o gysgu allan yn anodd, ond mae angen i ni fesur graddau a natur achosion o gysgu allan cystal ag y gallwn er mwyn cynllunio i roi terfyn ar achosion o'r fath.

17. Datblygu systemau monitro parhaus ledled Cymru er mwyn gwella ein gallu i fesur achosion o gysgu allan a gallu olrhain, asesu a chofnodi gwaith gydag unigolion, gan anelu at ddata ar lefel unigolion y gellir eu cysylltu a'u rhannu ledled Cymru. (Erbyn mis Mawrth 2019)
18. Adolygu'r ymarfer casglu data cenedlaethol blynyddol a gynhelir am gyfnod o bythefnos er mwyn sicrhau y caiff manylion priodol eu casglu am bobl sy'n honni eu bod yn cysgu allan er mwyn helpu i ddatblygu polisiau. (Erbyn mis Gorffennaf 2018)

### Ariannu

Dim ond drwy ddarparu'r adnoddau i helpu gwasanaethau i roi'r cynllun hwn ar waith y gallwn fynd i'r afael ag achosion o gysgu allan. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ariannu'r cynllun hwn. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ran hanfodol i'w chwarae wrth ariannu gwasanaethau lleol sy'n atal unigolion rhag cysgu allan ac yn lliniaru'r sefyllfa.

19. Sicrhau cyllid i leihau nifer yr unigolion sy'n cysgu allan, gan annog dulliau arloesol o fynd i'r afael â'r broblem, gan gynnwys cymhellion i landlordiaid preifat. (O fis Chwefror 2018)
20. Buddsoddi mewn llety a gwasanaethau sy'n benodol i anghenion pobl ifanc fel dewisiadau amgen i gysgu allan, gan weithio gyda Phartneriaeth End Youth Homelessness. (O fis Chwefror 2018)

### Cydweithio

Dim ond drwy gydweithio er mwyn diwallu eu hanghenion y gall gwasanaethau roi cymorth effeithiol i unigolion sy'n cysgu allan. Mae hyn yn golygu gwneud trefniadau clir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn aml, bydd angen cymorth ar bobl ddigartref sy'n agored i niwed i gael cyngor a gwasanaethau eiriolaeth i'w galluogi i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

21. Gwella'r trefniadau i unigolion sy'n cysgu allan gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, drwy roi Safonau Iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Digartref a Grwpiau Agored i Niwed ar waith yn well. Bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau cydweithio enghreifftiol ar gyfer ymgysylltu gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ag unigolion sy'n cysgu allan. (O fis Ebrill 2018)
22. Atgyfnerthu'r llwybrau rhwng gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol, asiantaethau gwirfoddol, y sector iechyd a'r sector tai, er mwyn sicrhau bod staff yn meddu ar ymwybyddiaeth ddigonol ac wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gyfeirio unigolion yn briodol a'u galluogi i lywio eu ffordd drwy'r system er mwyn cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt. (O fis Ebrill 2018)

### Hyrwyddo Arfer Da

Mae amrywiaeth eang o arbenigedd ym maes cysgu allan ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Rhaid i ni ddefnyddio'r arbenigedd hwn i ddysgu ac arloesi er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl sy'n cysgu allan.

23. Gweithio gyda phartneriaid i atgyfnerthu'r ddealltwriaeth ynghylch datblygu arfer da wrth helpu unigolion sy'n cysgu allan, yn arbennig Rough Sleepers Cymru, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau, gweithdai a gwefannau. (Parhaus)
24. Trefnu cynhadledd genedlaethol ar gysgu allan er mwyn ystyried arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol. (Erbyn mis Tachwedd 2018)